1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 1


# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 36. RHIF 7-8 RHAGFYR 2014 / IONAWR 2015 50c




## Cyfarchion Nadolig 2014

Dymuna Olwen Owen NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w theulu a'i ffrindiau i gyd
*Beechfield Lodge, Salford*

Dymuna E. Goronwy Owen NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w deulu a'i ffrindiau i gyd.
*Dowsefield Lane, Lerpwl*

Mae Ken Pritchard a'i deulu yn dymuno NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau i gyd.
*Westwood Home, Brimstage Road, Brimstage*

Mae Ben a Meinwen Rees a'r teulu yn dymuno NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i holl ddarllenwyr *Yr Angor.*

Mae Marged Jones yn dymuno NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau i gyd ar y Glannau.
*Maes Ffynnon, Rhuthun, Dyffryn Clwyd.*

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA oddi wrth
*Sarah Davies, Bebington.*



Dymuniadau gorau am NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i chwi oll. Oddi wrth
*Bill a Rhiannon Liddell, Lerpwl*

## YN Y RHIFYN HWN:


CYNGERDD Y DONIAU CYFOETHOG - NEWYDDION O FANCEINION, EGLWYSI BETHANIA, BETHEL, SEION – CYMRY LERPWL A CHYMRY BIRKENHEAD - COFIO GLENYS LLOYD MCNULTY – MYFYRDOD Y NADOLIG

1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 2

# Cyngerdd y Doniau Cyfoethog
## Côr Tŷ Tawe, Abertawe

*gan un fu yn gwrando*



*Côr Tŷ Tawe ar ei uchelfannau*



*Siôn Goronwy, y Bala a Glasgow*

Ar y Nos Sadwrn, 25 Hydref dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi cawsom wledd ardderchog gan Gôr Tŷ Tawe, sef Canolfan Gymraeg Abertawe yn eglwys Bethel, Lerpwl. Sefydlwyd y Côr ym 1990 yn gôr pedwar llais. Mae wedi dod yn gôr poblogaidd iawn ac wedi teithio'n eang i sawl gwlad dramor. Sefydlwyd y côr gan ei Arweinydd, Helen Gibbon. Mae'n unawdydd soprano arbennig yn ogystal a bod yn arweinydd ysbrydoledig ac mae wedi ennill y wobr gyntaf bedair gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cefnder Helen, John Evans o Aberteifi yw'r cyfeilydd medrus. Cyflwynwyd y Côr gan Lywydd y noson, y Parchg. Ddr. D. Ben Rees. Cawsom beth o hanes y côr, a'r arweinydd ganddo, a chlywsom fod yr awdur Heini Griffiths, trefnydd y teithiau, yn un o aelodau'r côr. Mab yw i Dr. J. Gwyn Griffiths fu yma yn astudio yn y Brifysgol ac yn aelod yng Nghapel Bedyddwyr Cymraeg Edge Lane. Aelod arall â chysylltiad â Lerpwl oedd Mr. David Williams fu'n organydd yma'n Heathfield Road yn y saithdegau.



*David Williams a'i briod Gretta yn sgwrsio gyda Margaret Anwyl Williams am y 'dyddiau gynt a fu'*




*O'r chwith i'r dde: John Evans, Yvonne Davies, Allerton, cyfnither i Helen Gibbon a Heledd Evans*



*Cynulleidfa wir werthfawrogol y Côr*

Roedd y rhaglen yn ardderchog, ac amrywiol, gyda chwaeth i'n plesio fel Cymry. Clywsom ddarnau clasurol gan Verdi a Karl Jenkins, emynau, cân o Sioe Gerdd a 'Ddoe mor bell' sef 'Yesterday' y Beatles i ni yma yn Lerpwl. Roedd hefyd gân jazz arbennig, 'Ddiogyn Bach' sef 'Lazybones, lying in the sun' gan Hoagy Carmichael. Cawsom hefyd y fraint o wrando ar dri unawdydd gwych. Canodd merch ifanc, Heledd Evans o Gaerfyrddin gyda llais addawol iawn, unawdau yn cynnwys 'Cilfan y Coed'. Clywsom lais cyfoethog y soprano Helen Gibbon yn canu 'Ynys y Plant' a chawsom wledd arall gan Siôn Goronwy o'r Bala. Mae'n canu gyda'r Scottish National Opera yn Glasgow ac wedi canu ledled Ewrop. Mae ei lais soniarus, gwych yn hollol arbennig. Ymysg eraill clywsom ganddo 'Gân yr Arad Goch', 'Y Cymro', a chân gan Tchaikovsky. Mae'n ŵr hynod o dal, a dywedwyd amdano yn yr *Independent*, "Cawr o gorff ac o lais". Un o uchafbwyntiau'r noson oedd ei glywed ef a Helen Gibbon yn canu'r ddeuawd 'Moliant i'r Iôr' gan Stanley Dixon. Mewn egwyl fer clywsom gan Dr. D. Ben Rees am y Gwyliau a drefnwyd gan y Gymdeithas Etifeddiaeth ac am y pwysigrwydd o gofio Cymry arbennig y gorffennol. Mae pedair Gŵyl a'r bymtheg wedi eu cynnal yma dros y blynyddoedd. Record anhygoel iawn.

Diolchwyd yn gynnes i'r Côr, y cyfeilydd a'r unawdwyr gan Dr Rees a rhoddodd lyfr yr un i'r arweinydd, y cyfeilydd a'r unawdwyr, ac yn y Ganolfan cafodd pob aelod o'r Côr gyfrol ganddo i gofio'r ymweliad. Roedd cymeradwyaeth y gynulleidfa yn dweud y cwbl am y noson hon a gofir am amser maith. Mae'n diolch yn fawr iddynt fel Côr ac unawdwyr am ein cynorthwyo a throsglwyddwyd y swm o £245 o elw tuag at Apêl Mimosa.

## LLYTHYR AGORED

***Annwyl Ddarllenwyr y papur bro,***

## APÊL GŴYL MIMOSA LERPWL 2015

Bwriadwn fel Cymry Lerpwl trwy gyfrwng Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi gynnal Gŵyl Mimosa fel rhan o ddathliadau pwysig a hynny o nos Wener, Mai 29 i bnawn Sul, 31 Mai, 2015. Gan fod y llong hwyliau Mimosa wedi gadael porthladd Lerpwl yn 1865 am Borth Madryn, bwriadwn fel cymdeithas:

1. Gosod cofeb sylweddol i gofio hynny mewn man cyfleus ar lan Afon Mersi. Cyst y Gofeb £5,000 i'w chynllunio a'i gosod yn ei lle ar gyfer ei dadorchuddio mewn seremoni bwysig bnawn Sadwrn, Mai 30, 2015 am 3 o'r gloch y pnawn.
2. Trefnu rhaglen uchelgeisiol at y penwythnos: cyfarfodydd a chyflwyniad o 'Ysbryd y Mimosa' (o waith Tim Barker), a chroesawu Côr Ysgol Gymraeg yr Hendre, Trelew, y Wladfa i'n plith i ganu.

Byddwn felly yn ddiolchgar am roddion tuag at y gofeb a'r dathliadau, i'w hanfon i'r Cadeirydd, yn 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl/Liverpool L18 6HW, erbyn dydd Gŵyl Ddewi, Mawrth 1, 2015 fan bellaf.

Nodir eich cyfraniad yn y papur bro ac yn 'Llawlyfr y Dathlu' a gyhoeddir erbyn Mai 29, 2015. Dylid gwneud y sieciau'n daladwy i 'Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society'. Mae angen oddeutu £8,000 arnom.

Yn ddiolchgar,
*Dr. D. Ben Rees (Cadeirydd)*
*Ms Rachel Gooding (Trysorydd)*
*Dr. Arthur Thomas (Ysgrifennydd)*

**Golygyddol**

# *A hwy a gawsant y Dyn Bach*

## *– gan D. Ben Rees*

Bu dyfodiad Dr. Goronwy Wynne, Licswm i ddarlithio ar Draddodiad y Plygain yn help mawr i nifer ohonom a fu'n gwrando arno yn y Ganolfan yn Auckland Road. Roedd wedi paratoi, fel y disgwylid, yn ofalus a chlywsom gyfeiriadau at werth y Carolau, ac mae'r ystyr i Garolau Nadolig ydyw dathlu gwir geni yr Iesu. Carol y Nadolig yn dweud wrthym y stori, a hynny, yn ôl y darlithydd, yn y carolau Cymraeg ar lwybr diwinyddiaeth. Duw yn anfon mab fel y mae'r adnod ddiwinyddol hon yn ei osod:

'Yr hyn oedd y tu hwnt i allu'r Gyfraith, yn ei gwendid dan gyfyngiadau'r cnawd, y mae Duw wedi ei gyflawni. Wrth anfon ei Fab ei hun, mewn ffurf debyg i'n cnawd pechadurus ni, i ddelio â phechod, y mae wedi collfarnu pechod yn y cnawd' (Rhufeiniaid 8:3).

Yr un yw trywydd diwinydd arall, sef awdur anhysbys Epistol at yr Hebreiaid, pennod 11 adnod 6: 'A thrachefn, pan yw'n dod â'i gyntafanedig i mewn i'r byd, y mae'n dweud: "A bydded i holl angylion Duw ei addoli." A dyna'n braint ninnau fel yr atgoffa James Nicholas i ni yn ei englyn, Y Geni Gwyrthiol:

*Ganwyd y Mab o gnawd Mair – un nos oer*
*Tan y seren ddisglair,*
*Yn wyrth o Dduw o'r groth ddiwair*
*Yn y gwellt, Hwn oedd y gair.*

Soniodd un o aelodau Côr gwych Tŷ Tawe, Abertawe wrthyf ei fod ef yn nai i'm cyfaill y diweddar Barchedig J. Eirian Davies. Bu perthynas dda rhyngom. Galwn yn fy nhro i weld Eirian a'i briod Jennie (un o ferched mwyaf carismatig y gwn i amdani ar lwyfan gwleidyddol) yn yr Wyddgrug a byddai yntau yn aros ar ein haelwyd pan ddeuai i bregethu i Lerpwl. Credaf fod Eirian wedi taro deuddeg yn ei englyn crefftus a chofiadwy ar deitl y golygyddol hwn:

*Ni wyddom am ddim rhyfeddach – Crëwr*
*Yn crïo mewn cadach,*
*Yn faban heb ei wannach*
*Duw yn y byd fel Dyn Bach.*

Dymunaf Nadolig bendithiol iawn i holl ddarllenwyr *Yr Angor* a diolch o galon am y gefnogaeth

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Fel y gwyddom bwriadwn ail-drefnu Suliau y flwyddyn nesaf, gan ganolbwyntio ar lai o oedfaon nac yn y blynyddoedd cynt. Gobeithiwn y bydd y drefn newydd yn cael cefnogaeth dda. Bydd ein Gweinidog yn rhoddi yr un nifer o Suliau i ni ag yn y blynyddoedd diwethaf hyn, a bwriadwn uno ym Methel yn y Suliau lle na fydd oedfaon yn Christ Church. Deil nifer o'n plith mewn gwendid a chaethiwed, sef Miss Megan Williams, Mersey Road, Miss Dorothy Williams, Blundellsansds. Cawn ein hamddifadu o'i presenoldeb yn yr oedfaon. Trefnwn eleni eto gyfarfodydd i drafod yr Ysgrythur yng nghartref y Parchg. David Williams, caplan Ysbyty Alder Hey yn nhymor yr Adfent. Buddiol a bendithiol yw'r cyfarfodydd hyn gan ein bod yn bobl y Gair. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n haelodau ac yn wir i holl ddarllenwyr y golofn hon. Braf yw cael cofnod o fis i fis yn ogystal a'r Ddolen o'n hanes fel diadell Duw yng ngogledd Lerpwl.

## Cymdethas Cymry Lerpwl

Ar y nos Fawrth olaf o Fedi daeth Ellis Wyn Roberts atom i sôn am 'gymeriadau bro fy mebyd' sef ardal Bodwrog a Bodffordd. Yr oedd hon yn ardal ddiwylliedig yn llawn o gymeriadau - cymeriadau y Werin nad ydynt i'w cael y dyddiau yma. Soniodd am dri bardd oedd yn byw yn yr ardal pan oedd Mr. Roberts yn blentyn sef John Owen, John Thomas a Parch. O. R. Parry. Roedd John Owen yn fardd gwlad ac yn berson agos atoch. Yr oedd yn ysgrifennu am ogoniant pethau cyffredin. Yr oedd yn fardd a chynganeddwr da iawn ac yn englynwr arbennig. Enillodd Gadair Eisteddfod Môn bedair gwaith. Roedd Tom Parry Jones a Rolant o Fôn yn ddisgyblion iddo. Ysgrifennodd y darn 'Gweddi'r pechadur' tua 60 mlynedd yn ôl ond mae'r darn yn addas i'n sefyllfa ni heddiw. Ysgrifennodd y darn ychydig wedi i'w frawd farw yn y Rhyfel Byd cyntaf ac mae'n sôn am rai yn gwneud penderfyniadau gwallgof i fynd i ryfel.

Telynegwr arbennig oedd John Thomas. Yr oedd yn ŵr arbennig. Bu iddo briodi Annie yn 22 mlwydd oed ond erbyn iddo dod adref o Rhyfel Byd cyntaf roedd Annie wedi ei adael a mynd i ffwrdd



***Elis Wyn Roberts a Carys Jones, y ddau o Fôn***

gyda rhywun arall. Yn 1927 bu iddo ysgrifennu y llyfr *'Telyn y Milwr'*. Dywed yn nechrau'r llyfr nad oedd yn disgwyl llawer ohono – ' telyn wedi torri yw ond gobeithio y cei ychydig o fiwsig ohono.'

Bu Parch O. R. Parry o dan ddylanwad John Thomas. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn barddoniaeth ac enillodd mewn lawer i Eisteddfod ond penderfynodd fynd i'r Weinidogaeth. Bu yn Weinidog yn Nhregarth am 10 mlynedd, Trawsfynydd am ddeg mlynedd wedyn cyn symud i Eglwys Bethania, Rhuthun. Ar hyn o bryd mae Mr Roberts yn paratoi llyfr o waith y tri bardd yma ac edrychwn ymlaen at ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.


'Hiwmor Tre Caernarfon' oedd testun Mari Gwilym a'i gŵr Emrys Llewelyn a chawsom noson hwyliog yng nghwmni y ddau. Mae geiriau a ffug enwau yn bwysig yng Nghaernarfon ac mae gan tref 'y Cofis' ei geirfa ei hun. Darllennodd Mari hanes yr Eisteddfod o 'Adroddiadau'r Co bach'. Cawsom stori o'r llyfr hiwmor 'Lafar Gwlad' a stori Huwcyn yn y carchar am ddwyn eog o Afon Seiont. Bu Emrys Llewelyn yn sôn am rhai o gymeriadau y dref fel Wil Napoleon a fu yn y ffilm *Prince Valiant* yn y 50 au gyda Robert Wagner a Vivien Leigh. Cawsom hefyd stori ysbryd Annie Roberts a laddwyd adeg y Nadolig yn Noc Victoria. Mae Emrys wedi ysgrifennu llyfr hefyd ac mae'n tywys ymwelwyr i lefydd diddorol yng Nghaernarfon. Darllenodd Mari yr hanes sut y bu iddi cyfarfod ei phriod Emrys o'i llyfr ' Melys Gybolfa Mari'. Noson ysgafn a llawn chwerthin i godi'r calon.

Datgelu cyfrinachau llynnoedd Eryri wnaeth Geraint Thomas yr wythnos ganlynol. Cafodd ei eni yn Nyffryn Nantlle ond erbyn hyn mae'n byw yn ardal y Bala. Mae'n ffotograffydd proffesiynol ac yn berchennog Oriel Panorama, Caernarfon *(www.panorama-cymru.com)*. Dangosodd ffrwyth ei lafur dros ddwy flynedd yn tynnu llun o bob llyn ym Marc Genedlaethol Cymru. Mae 144 ohonynt i gyd! Fe rannodd y Parc i un rhan a'r ddeg. Dywedodd fod yn rhaid i bob llun ddweud stori. Yr oedd ei luniau yn arbennig, ac yr oedd hefyd yn dweud hanesion a chwedlau sydd yn gysylltiedig



***Kath Norton hefo Emyr Llewelyn a Mari Gwilym***

1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 5




*Cynnwys y ddarlith*

â'r llynoedd a'r ardal. Edrychwn ymlaen i ddarllen cyfrolau eraill o'i eiddo sydd yn cael eu paratoi. Dywed Gerallt Pennant amdano mai dawn i agor llygaid yw dawn Geraint Thomas ac roedd ei luniau yn profi hynny.

Yn niwedd mis Hydref ar noson dymhestlog a'r Ganolfan yn llawn bu'r Gymdeithas yn 'Crwydro' yng nghwmni Dr. John a Beryl Williams. Buont yn sôn am eu hymweliadau gyda Chymdeithas Bob Owen i bedwar lle yng Ngogledd Cymru sef Cefn Caer ac Eglwys Sant Pedr mewn Cadwynau ym Mhennal, Llys Rhosyr a Institiwt John Prichard Jones (Niwbwrch), Eglwys Gadeiriol Llanelwy i weld Beibl William Morgan a Llanfihangel ym Mhennant i weld cartref Mari Jones ac Eglwys Sant Mihangel. Ar y daith yma aethant ymlaen i Fryncrug i weld bedd Mari Jones ac wedyn i Dywyn i weld Eglwys St. Cadfan a'r ysgrif Gymraeg o'r wythfed ganrif a geir yna. Dyma'r eisampl gynharaf sydd mewn bod o waith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Dangoswyd llawer o luniau. Tipyn o grwydro mewn awr o amser! Llywyddwyd gan Roderick Owen a thalodd deyrnged haeddiannol i'r ddau am noson gofiadwy.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Ar fore Sul 5 Hydref cawsom Oedfa hyfryd i ddiolch am y Cynhaeaf dan ofal Dr. D. Ben Rees.Yn ystod y gwasanaeth bendithiol gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd. Bu canmoliaeth hefyd i'r Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch a gynhaliwyd ar y noson ddilynol. Trefnwyd y gwasanaeth gan Dr. John G. Williams a chymerwyd rhan gan Mrs Beryl Williams, Mrs Norma Owen a Mr. Dafydd Wrennall. Diolchwn yn ddidwyll i'r Parchedig D. Glanville Rees am ddod o Southport i'n gwasanaethu ar fore Sul, 12 Hydref.


Drwg iawn oedd gennym fel Eglwys glywed am farwolaeth Mrs Glenys McNulty yn Hosbis Marie Curie yn




*Geraint Thomas yn y canol gyda Nerys V. Jones a Brian Thomas (y Llywydd)*

Woolton. Cynhaliwyd yr angladd ym Methel dan ofal ei gweinidog, Dr. D. Ben Rees, ar brynhawn Llun 13 Hydref. Roedd y capel yn orlawn a chlywsom dystiolaeth da i'w chymeriad, fel yr oedd yn garedig ac yn hoffi cynorthwyo'r gwael a'r gwan. Yr organydd oedd Mrs Margaret Anwyl Williams, ac ymysg eraill canwyd yr emyn "Cymer, Iesu, fi fel rydwyf" ar y dôn adnabyddus Bryn Calfaria. Cyfansoddwyd y dôn hon gan William Owen (1813-1893), cerddor o Wynedd, a hen, hen, hen hen daid i Glenys. Gwnaeth y dôn hon William Owen yn adnabyddus ym Mhrydain ac mewn eglwysi drwy'r byd. Dilynwyd gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Springwood. Mae'n cydymdeimlad yn fawr â phriod Glenys, Mr. John McNulty. Nid yw ef wedi bod yn dda, a bu yn yr Ysbyty Brenhinol ddwywaith yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd â thair nith Glenys, gweddill y teulu a'i chyfeillion.

Ar nos Lun, 20 Hydref cawsom groesawu Dr. Goronwy Wynne o Licswm i'r Gymdeithas Lenyddol. Rhoddodd ddarlith ardderchog i ni ar Draddodiad y Plygain. Llywydd y noson oedd Dr. D. Ben Rees, ac wrth gyflwyno Dr. Goronwy Wynne, dywedodd ei fod yn ŵr amryddawn gyda diddordeb arbennig mewn llenyddiaeth, hanes, technoleg, y bywyd gwyllt, cerddoriaeth a gwyddoniaeth. Bu'n Arweinydd Côr yn y Wyddgrug am 30 mlynedd ac mae'n codi canu yn y Capel, sef Capel y Berthen. Clywsom am Y Plygain er ei dechreuad. Mwmiodd ddechrau'r dôn 'Cader Idris' yna'r gynulleidfa'n cario ymlaen. Roeddym yn well o lawer yn ei ddilyn yn mwmian 'Oes Gafr Eto?' am fod y gân yn perthyn i draddodiad y canu a'r cyntaf yn perthyn i draddodiad y delyn. Ystyr y gair "carol" yw cerddoriaeth i ddathlu, ac nid o angenrheidrwydd i ddathlu'r Nadolig. Dangosodd i ni lyfryn o'r enw 'Carolau'r Haf'. Cynhaliwyd gwasanaethau cyntaf Y Plygain ar ôl y Diwygiad Protestanaidd. Mae carolau Cymreig y Plygain yn ddiwinyddol, yn dechrau yn y preseb ac yn aml yn diweddu yng Nghalfaria. Roedd carol Eos Iâl, 'Ar Gyfer Heddiw'r Bore' yn ddiwinyddol. Roedd y Ficer Pritchard yn un o'r beirdd enwocaf y carolau. Clywsom dair fersiwn o'r dôn Llantrisant gyda phatrymau cerddorol gwahanol. Canodd Dr. Goronwy Wynne rai o garolau'r Plygain. Roeddynt yn hoff iawn o 'Clychau Rhiwabon' yn Nwyran, Ynys Môn. Byddai'r alaw 'Myfi'r pechadur pennaf' yn cael ei chanu gan hen drempyn, yna addaswyd hi fel emyn. Ystyr Pulicantus yw caniad y ceiliog ac



*Dr Goronwy Wynne yn gwneud pwynt diddorol*

ystyr y gair Plygain yw Gwasanaeth Eglwysig y peth cyntaf yn y bore. Y garol Gymraeg hynaf y gwyddom ni amdani yw "Ar Fore Dydd Nadolig", hon ers cyn oes Elisabeth. Cychwynwyd y Plygain yn yr Eglwys, yna addaswyd y traddodiad gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, Y Weseiaid ac yn olaf gan yr Hen Gorff. Roedd rhai traddodiadau wedi dechrau mewn tai tafarnau, yn enwedig traddodiad y delyn. Byddai llawer cardotyn yn crwydro a'i delyn ar ei gefn – "Gyda'r diafol ar ei gefn" fel y dywedai rhai. Arhosodd Meldelssohn mewn tafarn unwaith a chlywed y delyn. Galwodd y sain yn "Dreadful out of tune trash!" Ond erbyn hyn mae'r delyn yn rhan o'r Plygain. Daeth llawer o'r alawon o Loegr. Mae gwasanaeth Plygain wedi ei gynnal yn Lloc, ger Licswm ers 1845. Clywsom un garol gyda'r geiriau "Gaslight Calfaria" mewn un bennill. Enillodd Alice Evans ar gyfansoddi Carol Plygain yn yr Eisteddfod Genedlaethol dair blynedd yn ôl gyda chanmoliaeth mawr y beirniad â Dr. Goronwy Wynne.

Mae gwasanaethau Plygain yn dal i gael eu cynnal heddiw yn Sir Drefaldwyn ran fwyaf, ond mewn aml i drefn neu bentref yn y Gorllewin a De Cymru hefyd. Bydd teuluoedd yn aros ar eu traed drwy'r nos, yn aml yn gwneud cyfleth, yna'n mynd i'r Plygain am tua pedwar o'r gloch y bore. Mae Dr. Goronwy Wynne wedi bod mewn sawl Gwasanaeth Plygain a chlywsom am y canu digyfeiliant, unawdau, deuawdau, grwpiau neu deuluoedd yn canu, ac erbyn hyn, plant yn ogystal. Clywsom y garol 'Seintiau Gorfoledd' yn cael ei chanu fel deuawd gan y soprano Rhiannon Evans gyda thenor. Ar y diwedd, mae'r dynion i gyd yn mynd at ei gilydd a chanu fel côr. Maent yn diweddu gyda 'Carol y Swper' lle maent yn sôn am y swper oedd yn eu disgwyl ar ddiwedd y Plygain ac hefyd am Swper yr Arglwydd. Cawsom weld sawl darn o gerddoriaeth, rhaglenni a llyfrau yn ymwneud â'r Plygain. I ddiweddu, clywsom driawd o ddynion yn cynnwys Arfon Gwilym yn canu 'Ar Dymor Gaeaf'. Mae'n diolch yn fawr i Dr. Goronwy Wynne am noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol.

Mae Mrs. Glenys Johnson, Marboroiugh Road, Tuebrook, wedi cael amser pur galed yn dilyn triniaeth llawfeddygol yn yr Ysbyty Frenhinol, ac hefyd ei merch Aimeé yr un modd. Meddyliwn amdanynt a dymunwn i'r ddwy adferiad buan. Felly hefyd Miss Hilda Lloyd, Rainhill a dderbyniodd driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty ????.

Erbyn i'r rhifyn nesaf o'r *Angor* ddod allan, bydd y Nadolig wedi pasio heibio. Hoffwn anfon ein cofion a'n dymuniadau da hefyd i Mrs Edna Thomas, Mrs Gwerfyl Jones a'r Athro D. A. Price Evans, y tri mewn Cartrefi Preswyl, ac i Mrs Mary Williams, Mrs Joyce Lewington, Mrs Delyth Morris, Mrs Gwen Jones, Mr. Gwilym Lewis, Mr. Frank Jones a Mrs Louie Jones sydd yn disgwyl am driniaeth.

Dymunwn Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda, iach a heddychlon i holl ddarllenwyr *Yr Angor.*

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Yn ôl ein arfer, ail gyfarfod y tymor yw'r gwasanaeth crefyddol yng nghapel Seion. Eleni ar Hydref 6 y gŵr gwadd oedd y Parch Ddr. Ben Rees, ein cymydog a'n cyfaill. Croesawyd ef gan Mrs Eirwen Sargent gan ddiolch iddo yn arbennig am ei gefnogaeth i'n Cymdeithas ac i gapeli a Chymry Cilgwri dros y blynyddoedd maith fel darlithydd a phregethwr. Rhan o'r bedwaredd bennod o efengyl Ioan oedd y darlleniad gan ganolbwyntio ar adnod 44, "yr Iesu ei hyn a dystiodd nad yw'r proffwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun." Mae'r dywediad hon bron wedi troi'r ddihareb mewn llawer iaith. Gan Dr Ben cawsom gefndir geiririau'r Iesu wedi iddo gael ei ddisytyru yn Nasareth ond wedi cael croeso, gwrandawiad a dilynwyr yn Samaria, gwlad gelynion pennaf yr Iddewon. Wedi dod yn ôl i Galilea cafodd groeso ar ôl iddynt glywed a gweld "yr holl bethau a wnaeth efe yn yr ŵyl". Tybed ydym ni'n debyg iddynt hwy, yn fodlon mynd gyda'r dyrfa, ond yn gyndyn i agor ein calonnau i'r Iesu fel unigolion? Mae gwahoddiad yr Iesu yr un mor groesawus heddiw i ni, ag yr oedd i'r wraig o Samaria: "agor iddo, anghymarol Iesu yw."

Cysylltodd a chymharodd Dr. Ben yr hanes hwn, a'r hyn a ddigwyddodd i lawer o Gymry wedi Diwygaid y ddeunawfed ganrif ac wedi i'r Eglwys Anglicanaidd droi y Methodistiaid Calfinaidd i efengylaidd o'u gwasanaethau. Wedi colli'r rhyddid i addoli fel y mynnent, daeth nifer fawr ohonynt yma i Lerpwl a'r Glannau i agor capeli anghydffurfiol lle y cawsant groeso a chyfle i weithio hefyd mewn diwydiannau amrywiol.

Amlinellodd Dr Rees inni, y tyfiant aruthrol fu ymsyg y Cymry, a'r dylanwad ar lawer agwedd o ddiwylliant y glannau. Prynwyd tir ym Mhenbedw gan ddau ŵr o Sir Fôn i adeiladu capeli ac yn Wallasey y clywyd pregeth Gymraeg gyntaf ar Lannau Mersi gan Minimus. Cawsom ein hatgoffa am amryw o ddynion arbennig iawn a ddaethant yma i gael yr anrhydedd a'r cyfle nad oedd yn bosibl, efallai yn eu broydd mebyd. O'r eglwysi hyn y tyfodd cymdeithasau Cymraeg, corau, cwmniau dramau, eisteddfoau oherwydd y capel yn y C19 a'r ugeinfed ganrif oedd canolbwynt eu bywydau.

Diolch iddynt am y weledigaeth, a diolch i Gymry heddiw am gynnal fflam ein hiaith, llenyddiaeth, a cherddoriaeth yng nghymdeithasau'r cylch.

Gwnaed casgliad at waith *Charles Thompson's Mission* a diolchwyd i Terry O'Neil am gyfeilio, i swyddogion Seion am ein gwahodd ac i bawb a gyfrannodd at noson bendithiol a myfyrgar. A da gweld cynulleidfa mor deilwng i'r oedfa hon.

Noson y dysgwyr oedd Hydref 20 yng nghwmni Mr. Neil Wyn Jones, West Kirby, a'i ddosbarth. Mae cefndir Neil yn gyfarwydd iawn i lawer ohonom, yn enedigol yng Nghilgwri i deulu ag etifeddiaeth Gymreig a diddorodeb yn y wlad a'r iaith. Dim syndod felly bod Neil wedi ymddiddori yn yr iaith ers plentyndod a bellach yn hollol rhugl a naturiol. Cymaint yw ei allu, a'i

# CORNEL Y TRYSORYDD

Rhagfyr/Ionawr 2014/15

| | |
|---|---|
| Mrs Gwen Rigby,Mossley Hill | £10.00 |
| Dr.a Mrs John Williams, Childwall | £100.00 |
| Mrs Undeg Cole, Abertawe | £11.00 |
| Mr Paul Griffiths, Wandsworth | £30.00 |
| Mr a Mrs Geraint Roberts, Rhuthun | £12.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £15.00 |
| Mr Huw Thomas, Chapel Le Frith | £25.00 |
| Mrs Gwenfyl Haynes, Wavertree | £25.00 |

**Cyfanswm £228.00**
**Roderick Owen (Trysorydd)**

1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 7

ymrwymiad fel iddo ddod yn athro yn y Gymraeg i oedolion ers blynyddoedd. Mae'n dysgu chwech o ddosbarthiadau yma, yn Cilgwri, ac yn Sir Fflint a Wrecsam. Mewn sgwrs hynod o ddiddorol a goleueig, eglurodd Neil i ni y problemau a'r pleserau o ddysgu Cymraeg i oedolion, gyda enghreifftiau o'r boddhad mae'n cael wrth weld brwdfrydedd a gwir fwynhad ei ddisgyblion.

Yng Nghymru ceir rhesymau fel yr awydd am ddysgu iaith ein cyndeidiau, gweld eu plant yn llwyddo mewn ysgol Gymraeg, neu'r teimlad o gyfrifoldeb o fyw yng Nghymru o blaid dysgu'r iaith. Yn Lloegr, mae symbyliad y dysgwyr ddigon tebyg – gofidio am golli'r iaith, awydd i ail-gydio ynddi, ond i Saeson uniaith, gwir gariad at y wlad a'i diwylliant yw'r ysgogiad. Maent oll yn ffodus yn eu hathro, gŵr galluog ac ymroddedig dros ben.

Mae Neil wedi cystadlu fel "Dysgwyr y Flwyddyn" gan gyrraedd y pedwar olaf a hynny yn Eisteddfod Wrecsam. Mae ei ddosbarth hefyd wedi ennill gwobrau gyda'i sgetsus hwyliog yn Eisteddfodau y dysgwyr yn Wyddgrug a mannau eraill. Ganddynt hwy cawsom sgwrs ynglŷn â sefyll i ddisgwyl bws, ac un arall am ddau barti'n dringo'r Wyddfa. Roedd eu perfformiad yn rhwydd a naturiol ac yn llawn hwyl naturiol. Mae'r chwech dawnus yma o'r Dosbarth yn haeddu cefnogaeth a llwyddiant. Dymunwn pob lwc iddynt yn Meifod yn 2015.

Cyfeiriodd y llywydd Mrs Eirwen Sargent at amryw o aelodau sydd wedi cael triniaeth yn ddiweddar. Da oedd clywed am Mrs Anne Jones yn gwella'n dda, a Mrs Gwyneth Ellis hefyd.

Siom oedd clywed am ddamwain Mrs Kitty Jones a syrthiodd a thorri ei choes. Bellach mae mewn ysbyty yn Llundain ar ôl mwynhau cyngerdd yno. Anfonwn ein dymuniadau da iddi hi, Mr Bob Jones, ac eraill sydd ddim yn dda, a'n cydymdeimlad â Mrs Mair Rees Jones ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yn Sir Fôn.

Gwnaed y diolchiadau am noson arbennig iawn i'r Dysgwyr a'i Athro gan Mrs Phyllis O'Neil gan ddatgan ei hedmygedd ohonynt oll, ac am i Neil gyfleu i ni ei ymrwymiad cwbl nodedig i'r gwaith o ennill pobl i siarad ein hiaith. Mr Terry O'Neill oedd ein cyfeilydd, a merched y pwyllgor oedd yn gyfrifol am de.


### Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cofiwn yn annwyl am deulu brawd-yng-nghyfraith Mrs Mair Rees Jones yn y brofedigaeth. Mae ein cydymdeimlad ati yn fawr. Bu Mair i Sir Fôn i'r angladd.

Mae diolch diolchiadau mawr i bawb sydd yn cludo y rhai heb geir i'r capel yn gyson ar bnawn Sul. Buasai'r gynulleidfa yn llawer llai heb eu cymorth caredig, Cristnogol.

Cymeraf y siawns hwn i ddymuno Nadolig fendithiol a hapus a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch, a minnau newydd ddechrau ar y dasg o groniclo hanes Capel Cymraeg Seion.

## Derbyn i'r Orsedd



***Llongyfarchiadau i Merfyn Williams am ei gyfraniad i stiwardiaeth yr Eisteddfod Genedlaethol am 34 o flynyddoedd. Cydnabyddwyd gan Bwyllgor yr Orsedd a chafodd i dderbyn i fysg y beirdd a'r llenorion a phobl o bob cylch.***
***Y mae yn un o gefnogwyr da Cymdeithas Gymraeg Birkenhead.***

# APÊL GŴYL MIMOSA
## (Lerpwl), 2015

***Derbyniwyd hyd at 31 Hydref 2015 y symiau canlynol at yr apêl***

i) Grŵp Tucsedos Blêr, Ruthun, Dyffryn Clwyd ............ £50.00
ii) Cyngor Tref Nefyn (trwy law Mrs Devida Owen Broadbent, Huyton with Roby) ............ £250.00
iii) Di-enw (mewn gwrogaeth i Gadeirydd yr Apêl, Dr D. B. Rees) ............ £100.00
iv) Cymdeithas Lenyddol Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Bethel, Heathfield Road/Auckland Road, Lerpwl ............ £75.00
v) Mr. T. K.Davies, Llandudno ............ £100.00
vi) Huw ac Elinor Roberts, Benllech, Môn ............ £30.00
vii) Elw Cyngerdd Côr Tŷ Tawe, Abertawe yn Lerpwl, 25 Hydref 2014 ..... £245.00
viii) Jan a Haydn E. Edwards, Llangefni, Ynys Môn ............ £50.00
ix) Jean Sockett, Llanfairfechan ............ £50.00

**Cyfanswm (Rhestr Gyntaf) .......... £950.00**

Dechrau ardderchog. Daw manylion yr ail rhestr yn y rhifyn nesaf o'r Angor.
**Anfoner y cyfraniadau i 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW.**

*Gyda'r diolch mwyaf*
*D. Ben Rees, Rachel Gooding, Arthur Thomas*
*ac aelodau Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi*

CANGEN LERPWL O BRIFYSGOL CYMRU
Cyflwyniad yn Saesneg
ar
Nos Lun, 19 Chwefror 2015
am 7.30 o'r gloch
gan
ADEL AHMED
(Prifysgol Gobaith)
ar
*Islam - Problems and Solutions*

BYDD CYFLE I OFYN CWESTIYNAU.
*Gwneir casgliad tuag at y costau*

# CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION

Agorwyd tymor y gymdeithas gyda darlith gan Mrs Heulwen Bott, Helsby. Teitl ei darlith oedd 'Y Plant a Gollwyd'. Hanes ydoedd am y Dywysoges Gwenllian, merch Llewelyn ein Llyw olaf, a alltudiwyd yn blentyn bach i leiandy, yn Sempringham yn Sir Lincoln. Ac yno y bu am weddill ei dyddiau hyd nes bu farw yn 54 mlwydd oed. Y rheswm am ei halltudio oedd ofnadwyaeth Brenin Lloegr Edward I y byddai Gwenllian yn cael ei gwneud yn dywysoges ar y Cymry ac felly yn elyn iddo. Mae carreg fedd wedi cael ei rhoi mewn llecyn heb fod yn nepell o Eglwys Sempringham. Mae llawer o ymwelwyr yn dod i ymweld â'r llecyn cysegredig yma – stori drist, yn wir, ond nid yw Gwenllian a'i bywyd unig wedi cael ei anghofio. Mae'n ymddangos hefyd fod mwy o blant o linach brenhinol wedi'u halltudio a'u gweddillion hwy yn Alvingham eto yn Sir Lincoln. Noson ddiddorol iawn a mae'n diolch i Mrs Bott am ein diddori cystal.

Mwyhawyd y noson yn fawr a da oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd. Edrychwn ymlaen at ein darlith nesaf yng nghwmni y Parch John Owen, Rhuthun.

### Y CAPELI CYMRAEG

Aeth ddwy ohonom i encil y chwiorydd yng Ngholeg y Bala ym mis Medi. Roedd yn dda i weld cynrychiolaeth o bob Henaduriaeth yn y Gogledd. Y thema oedd 'Nesàu at Dduw sy dda i mi' a chafwyd amser i fyfyrio yn dawel yn ogystal â chael sgwrs a lluniaeth ardderchog. Roedd yn ddiwrnod bendigedig, y tywydd yn garedig a'r wlad yn hardd.

Roedd yn brofiad i fod yn rhan o'r Gymdeithasfa, a gymerodd le yn ein Henaduriaeth ym mis Hydref, yng nghapel y Groes Wrecsam, a theimlo'r wefr gyda'r Llywydd y Parch Ddr Elwyn Richards yn ein harwain yn drefnus drwy'r busnes i gyd. Yntau hefyd a arweiniodd yr oedfa Gymun mewn ffordd arbennig iawn ac Eleri Edwards oedd yn rhoi'r anerchiad. Daeth llawer o bobl o'r ardal i'r oedfa a diolch am eu cefnogaeth a'u croeso.

Yn ein capeli, mae'r oedfaon ar y Sul yn parhau a'r gynulleidfaoedd yn ceisio bod yn ffyddlon. Parha'r cysylltiad agos efo'r Vine, y capel Methodist yn Hale a chawsom oedfa unedig ddwyieithog yno yn ystod yr Hydref ac roedd pawb yn falch o weld ei gilydd eto.Yn anffodus mae llawer o waeledd ar hyn o bryd: tair o'n ffyddloniaid wedi bod yn yr ysbyty, sef Mrs Edith Evans, Mrs Winifred Jones a Mrs Gwyneth Clement er bod Mrs Clement wedi symud i gartref am sbel i gryfhau erbyn hyn. Mae Mr a Mrs Elwyn Evans dal yn Florida gyda'u teulu sy'n byw yno ond y mae'r claf yn gwella yn ara-deg. Bu Mr Cliff Evans yn ymweld â'i wraig Edith sydd wedi cael strôc, ers rhai wythnosau ac mae'n gobeithio y bydd hi yn mynd i gartref am fwy o ffysiotherapi cyn bo hir. Cofiwn am y cleifion i gyd, a'u teulueodd yn ein gweddïau.

## GWLEDD Y TAD NEFOL

Gan nad ydym eto'n barod ar gyfer gwledd y Tad Nefol y Nadolig hwn, gadewch i ni ymgyfarwyddo â phreseb yr Arglwydd Iesu Grist.

***Awstin Sant***

## Y PLENTYN IESU

Ceisiwch y plentyn Iesu ymhlith y plant llwglyd a aeth i'w gwlâu yn y nos heb ddim i'w fwyta ac ymhlith y bechgyn papurau newydd tlawd a fydd yn cysgu wedi'u gorchuddio gan bapurau newydd wrth ddrysau ein siopau.

***Oscar Romero***

Rysait y Mis

## PWDIN BRENHINES



**Cynhwysion:**
100 gram briwsion bara
15 gram margarin
15 gram siwgr
2 felyn-ŵy
250ml llaeth
Hanner lemwn
Jam mafon
**Meringue** – 2 wyn-ŵy
100 gram siwgr mân.

**Dull:**
1. Cynheswch y ffwrn i 160°C
2. Irwch ddysgl (500ml)
3. Gratiwch groen y lemwn a gwasgwch y sudd ohono.
4. Gwahanwch y gwyn oddi wrth felyn yr wyau.
5. Cynheswch y llaeth, tynnwch o'r gwres, ac ychwaegwch y margarin, 15g o siwgr, croen y lemwn a'r briwsion bara. Gadewch iddo sefyll am 15 munud.
6. Ychwanegwch y ddau felyn-ŵy at y gymysgedd, ac arllwyswch i'r ddysgl.
7. Coginiwch yn y ffwrn nes y bydd wedi setio.
8. Tynnwch o'r ffwrn, ac yn ofalus, taenwch â jam, ac yna ysgeitiwch y sudd lemwn drosto.
9. Chwyrliwch y gwyn-ŵy nes iddo binaclu, ychwanegwch hanner y siwgr, a chwyrliwch yn dda. Plygwch weddill y siwgr i'r meringue yn ofalus.
10. Rhowch y meringue dros y jam.
11. Browniwch y meringue yn ysgafn yn y ffwrn

1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 9

*Coffâd am*

# Mrs Glenys Lloyd McNulty, Childwall

**(1943 – 2014)**

**Un o Gymry Lerpwl oedd Glenys McNulty, yn y ddinas y ganwyd hi, ac y magwyd hi, ac yma y bu byw ar hyd yn blynyddoedd. Ond o'i mebyd bu yn ymwybodol o'i gwreiddiau Cymraeg ac o athrylith cerddorol oedd yn hen hen daid iddi, sef William Owen, Prysgol (1813-93) a ddaeth i enwogrwydd am donau o'r radd flaenaf, fel Alma, Deemster, Prysgol ac yn arbennig Bryn Calfaria. Tôn a ganwyd yn ei chynhebrwng a hefyd ar Sul Diolchgarwch y Cynhaeaf ar 5 Hydref. Mae'n anhygoel meddwl fod William Owen wedi dechrau'r daith yn chwarelwr yn ddeg mlwydd oed, gyda'i dad yn chwarel Cae Braich y Cefn, Bethesda. Cofiaf drefnu oedfa i gydnabod ei ddoniau gyda Glenys yn bresennol, ac yr oedd wrth ei bodd.**

**Addysgwyd Glenys yn Ysgol Rudston Road ac yn Ysgol Sul Capel y Methodistiaid Calfinaidd Edge Lane. Yno yr ai y teulu, ac yn 1975 ymunodd hi a'i theulu Capel Bethel. Byddwn yn treulio pnawn cyfan yn y cylch lle y trigai y teulu ag aelodau eraill, sef Ilchester Road. Bu farw ei thad Alfred Lloyd yn weddol buan, a gwasanaethais yn yr arwyl, gan gysuro ei briod Ellen Lloyd Jones, ei chwaer Margaret a'i phriod Tom Phillips, a Glenys a'i phriod John. Derbyniwn groeso mawr ym mhob tŷ a balchter ei bod yn cael ymweliad y bugail o Bethel.**

**Y tro cyntaf imi weld Glenys oedd ar faes Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun yn 1973 a hithau yng ngofal stondin symudol gwerthwyr Everton Toffees a danteithion eraill, Barker and Dobson. Yr oedd yn ferch hardd a'i gwallt du, ac yn feistres ar y gwaith. Wedi'r cyfan teithiai yn gyson i bob cae ras ceffylau enwog, fel Aintree a Haydock, Uttoxeter ac yn y blaen, i werthu y danteithion. Rhoddodd pobl y ceffylau enw arbennig a oedd yn gweddu iddi, "Miss Sweetie".**

**Am 21 mlynedd bu'n Ysgrifenyddes i ŵr amlwg ym mywyd Lerpwl, Eric Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Lerpwl ac y mae hynny yn adlewyrchu ei dawn gweinyddol.**

**Yn ei bywyd personol fe gofir amdani, am ei gofal arbennig o'i chymdogion a'i ffrindiau. Ar ôl marwolaeth Mr Emlyn Roberts, Ilchester Road llwyddodd ei briod i aros yn y cartref oherwydd gofal Glenys a'i ffrind Miss Megan Lewis. Pan aeth Megan ei hun yn fregus, daeth Glenys i'r adwy gydag eraill i warchod ei ffrind o gapel Edge Lane ac i ymweld â hi yn gyson yn y cartref henoed. Dyma'r adeg yr anwylodd ei hun i lawer o aelodau Bethel. Yn ail ei ymroddiad i'w theulu. Gwelodd un ar**



*Glenys Lloyd McNulty*

**ôl llall o'r anwyliaid yn ymadael a'r fuchedd hon, a chafodd brofedigaethau mawr ym marwolaeth ei chwaer hynaf Menai yn 53 mlwydd oed ac yn gadael pedair geneth i hiraethu. Bu hi yn gefn iddynt, ac yn ei gwaeledd hithau, talwyd y gymwynas ar ei chanfed gan Lynsey, Carol, Julie a Sharon. Yn ei bumdegau hefyd y bu farw ei brawd Arfon ac yn yr argyfwng hwnnw gwnaeth ei gorau yn y trefniadau a gofalu cael gwasanaeth ei Gweinidog. Yn drydydd Cymru. Yr oedd wrth ei bodd pan fyddai John yn troi trwyn y car am Walia Wen, yn arbennig i Arfon a Môn.**

**Gwelodd Prysgol a bedd y cyfansoddwr ym mynwent Capel y MC yn Caeathro, ger Caernarfon. Yr oedd ganddi momentos o Gymru yn ei chartref a gwerthfawrogai bob eitem. Gofalai fynychu Cyfarfodydd Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Ddinas gyda Megan. Yr oedd yn fodlon braf.**

**Yn gynharach eleni, bu'n rhaid iddi fynd o dan archwiliad a derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Whiston. Oherwydd gwaeledd ei phriod yr adeg honno, trosglwyddwyd Glenys McNulty i Hospis Marie Curie yn Woolton lle cafodd ofal arbennig. Cefais neges gan Gaplan yr Hosbis fod bywyd ein chwaer yn y fantol ar bnawn Mercher, 28 Medi. Roeddwn yno yn yr hwyr gyda'i anwyliaid a chawsom weddi o amgylch y gwely a hithau yn clywed yr eiriolaeth ar ei rhan hi, ei theulu, a ninnau fel Eglwys.**

**Bu nifer dda o'n plith yn ymweld yn gyson â hi yn Woolton a daeth yr ymwared ar fore Iau, 30 Medi. Cynhaliwyd yr arwyl ar bnawn Llun, 13 Hydref yng nghapel Bethel ac Amlosgfa Springwood o dan fy ngofal, gyda Mrs Margaret Anwyl Williams yn organydd. 'Pryd hyn y daw troeon yr yrfa yn felys i lanw ein bryd'.**

**D. Ben Rees**

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin 2014 ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

1) **Rhifyn Chwefror 2015** – erbyn bore Gwener, 2 Ionawr i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW – y lluniau, adroddiadau, llythyron etc.

ii) **Rhifyn Mawrth 2015 –** erbyn bore Llun, 2 Chwefror neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net

iii) **Rhifyn Ebrill 2015** – erbyn bore Sul, 1 Mawrth 2015 man pellaf.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk Mae'r ddwy wefan wedi ei ailgynllunio ac yn haeddu cefnogaeth. Diolch i Dr. Pat Williams, Dr. Arthur Thomas, Dr. Ben Rees, Dr. John G. Williams a Mr. Roderick Owen am yr awgrymiadau i feistr y wefan, David Fletcher.

1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 10


# Cymdeithas Cymru-Ariannin 1939-2014

***Elvey MacDonald***

Cymdeithas Cymru-Ariannin, 2014. 56t. £5

Eleni mae Cymdeithas Cymru-Ariannin yn dathlu ei phen blwydd yn 75 oed, ac i gyd-fynd â'r garreg filltir hon mae'r gymdeithas wedi cyhoeddi cyfrol arbennig sy'n bwrw golwg yn ôl dros dri chwarter canrif o'i gweithgarwch. Ceir yn *Cymdeithas Cymru-Ariannin 1939-2014* ddetholiad o ysgrifau a gyhoeddwyd yn 1989 yn wreiddiol, yn ogystal ag ambell gyfraniad ychwanegol. Cofiwn fod Mrs Elan Jones, Mossley Hill wedi rhoddi oes i'r Gymdeithas

Diddorol dros ben oedd darllen am brofiadau'r unigolion hyn o Gymru a'r Wladfa – Ivonne Owen, y Parchg Eirian Wyn Lewis, Cathrin Williams, Mari Emlyn ac Elvey MacDonald – a dysgais dipyn am hanes y gymdeithas ei hun hefyd, megis y ffaith mai ei henw gwreiddiol oedd 'Cymdeithas Cymry Ariannin'. Ond buaswn wedi gwerthfawrogi pennod agoriadol i'r gyfrol ar hanes y gymdeithas er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hanesion personol hyn, a theimlwn y byddai cynnwys rhywfaint o luniau yn cryfhau'r ysgrifau gan gynnig darlun mwy byw a chyflawn i ni o brofiadau'r awduron. Felly pleser oedd cyrraedd y bennod 'Hanes Sefydlu'r Gymdeithas' gan Eiddwen Humphreys, sy'n olrhain cychwyniadau'r gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 1939 a'i gweithgarwch dros y degawdau dilynol. Dyma gofnod hanesyddol gwerthfawr, ac mae'n drueni nad oes dilyniant




iddo sy'n ymdrin â gwaith Cymdeithas Cymru-Ariannin ers hynny. Fodd bynnag, sonnir mewn penodau eraill am rai agweddau ar ei gweithgarwch diweddar, megis Cynllun Dysgu Cymraeg Chubut, anfon pregethwyr a chystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol i Wladfawyr, gan adlewyrchu diwydrwydd y gymdeithas dros yr hanner canrif diwethaf.

Wrth i ni nesáu at ganmlwyddiant a hanner ers sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, diddorol iawn oedd darllen adroddiad Valmai Jones ar ddathliadau'r canmlwyddiant yn 1965 mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled Cymru a'r Wladfa – a Llundain – trwy gyfrwng amryw ddigwyddiadau a gweithgareddau cyffrous. Dyma hwb ar gyfer dathliadau'r 150 y flwyddyn nesaf, ac mae crynodeb Elvey MacDonald o'r hyn y gellir ei ddisgwyl yng Nghymru yn 2015 yn sicr o ennyn diddordeb a chyffro!

Y mae Lerpwl yn rhan o'r dathlu.


Trwy gyfres o ysgrifau gafaelgar ac adran luniau fywiog, dyma gyflwyniad gwerthfawr i'r berthynas dra phwysig honno sy'n parhau rhwng Cymru a'r Wladfa. Mae'n rhaid ystyried a fyddai'r berthynas honno cyn gryfed ag y mae hi heddiw oni bai am waith parod a diflino'r gymdeithas hon. Boed iddi barhau felly, fel y gallwn ymhen 25 mlynedd ddarllen am lwyddiannau pellach Cymdeithas Cymru-Ariannin.

***Lois Dafydd***

# MYFYRDOD AR NADOLIG 2014

Roedd yna ostyngeiddrwydd anghredadwy yn nyfodiad Duw. Ei fyd ef ei hun oedd hwn. Yn wir, efallai ein bod wedi cael sioc fod y fath digwyddiad anferth wedi digwydd yn y fath dlodi a di-nodrwydd fel y con iclwyd. Wrth feddwl, anodd creu Ei fod yn Fab Duw. Fe anwyd mewn "beudy, isel gwael" yng nghefn tafarn pentref – Y GAIR a wnaethbwyd yn gnawd – OND dyma wedi'r cyfan ydy ffordd Duw ynte? Fel dywed J. B. Phillips "His 'weakness' is greater than our strength and His 'foolishness' greater than all our wisdom". Ni all ein balchder, ein casineb, ein hofnau nac ein hunanoldeb wahanu ni oddi wrth y cariad ddi-ball. Mae'r Baban yn FYW yn ein calonnau hyd dragwyddoldeb ymhell tu hwnt i Amser a Gofod. Mae'r Brenin yn teyrnasu o raid.

Edrychwn ymlaen yr adeg yma o'r flwyddyn. Roedd yr hen dduw Rhufeinig, Janus, yn cael ei bortreadu weithiau fel yn ddau wynebog, hynny yw fel un yn edrych ymlaen ac yn ôl. Rydym yn tueddu i wneud yr un peth. Ydy hi meddech werth edrych yn ôl – chwedl y Sais "water under the bridge". Imi, mae'n werth edrych yn ôl i weld camgymeriadau a'n methiannau. Edrych hefyd mewn diolch diffuant am Ei holl fendithion ar ein rhan a gweddio am un fendith arall sef UN i'w gwerthfawrogi y tu hwnt i'r cyfan i gyd. Beth bynnag ddaw i'n rhan "Bodlon os caf ymaflyd yn Dy Law" meddai'r emynydd. Dyma ni, felly, ar drothwy Blwyddyn Newydd – cyfarchion ddiffuant i chwi gyd yn aelodau o'r ANGOR a'r pwyllgor gwaith i lawr i'r "isel rai"!!! Boed bendith y Duw yn cerdded gyda chwi. Yn y dyfodol agos bydd y Grawys yn dechrau ac mae'n gyfaddas i ddweud ei bod yn adeg sancteiddhad a thyfiant ysbrydol mewnol. Cofiaf yn y Rhondda ers talwm i'r annwyl Tom Nefyn ddweud wrthym ni bobl ifanc "Bois bach, gweddiwch o hyd. Yr wyf yn greadur ysbrydol ac anfarwol ac mae'n ddigon i'ch cynnal am byth." Cofiaf hefyd yr adeg yma ddarllen am Luther yn dweud fod y frawddeg "Felly carodd Duw y Byd" yn golygu yr Efengyl mewn cnewyllyn – y cyfan ar ei orau wnewch chi edrych? Yma, cewch y Rhoddwr, y Cymellwr, y Gwrthrych, y Rhodd a'r Pwrpas i gyd gyda'i gilydd. Heb fanylu yn llawn Duw ydy'r Rhoddwr a digon yw dweud mai Cariad ydy'r cymheddliad nid sylwer "Felly hoffodd". Yn sicr mae llawer o bethau yn y byd nad ydyw yn hoffi ond trwy'r cyfan mae Duw yn dal i'n caru am mai cariad yw natur y Crëwr, a chariad yw graen y Cread. Annigonol yw rhodd heb y cymhelliad iawn. Dywedodd Sant Vincent de Paul wrth *Ladies of Charity:* "Dim ond eich cariad tuag at yr anghenus a'u galluoga i faddau i chwi y bara a ddygwch iddynt".



Beth ydy'r rhodd? Cyflwyno y Mab – yr annwyl Iesu Grist i'ch bywydau. Ie, y Baban a anwyd yn y beudy isel gwael – Beth yw Ei bwrpas? Dim llai gyfeillion annwyl ond rhoddi i chwi FYWYD TRAGWYDDOL. Canwn gydag eneiniad:

'Fy enaid cred, yr unig cred
Yr Iesu mawr ei hun,
Mae pob cyfiawnder ynddo Ef
Er maint yw eisiau dyn.'

**ELWYN**

# おめでとうございます (LLONGYFARCHIADAU)

Llongyfarchiadau i Undeb Gorawl Cymry Lerpwl ar eu llwyddiant yn llwyfannu gwaith poblogaidd Gilbert a Sullivan sef y 'Mikado' yn Theatr y Cornerstone yng nghanol y ddinas. Braf yw gweld y côr yn arbrofi fel hyn. Roedd pob aelod o'r côr yn gwisgo gwyntyll bychan i'r cyngerdd fel y gwelir yn y llun. Edrychwn ymlaen at gyngerdd y Nadolig.



*Dwy o aelodau'r Côr: Eryl Dooling a Rhiannon Liddell*



*Y Côr a'r gynulleidfa ar noson y* ***Mikado***



1_Tud 8 Mehefin.qxd 05/11/2014 19:42 Page 12

## RALI GENHADOL YN NODDFA OAKER AVENUE

Brynhawn Sadwrn, Hydref 4ydd cawsom ein Rali Genhadol flynyddol yng nghwmni Wendy Swan sydd yn weithiwr cymunedol yn yr Wyddgrug gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd. Pleser oedd croesawu merch ifanc sydd yn fwrlwm o frwdfrydedd tuag at ei gwaith. Fe'i magwyd yn y Treuddyn ac mae i'w hedmygu am ddysgu'r iaith Gymraeg. Ar ôl addysg eilradd yn ysgol Maes Garmon, bu yn Canada am gyfnod cyn dychwelydd i Gymru.

Mae'n gweithio o dan aden Ymddiriedolaeth Agathos ac yn mynd i wahanol ysgolion a chlybiau pobl ifanc i siarad â hwy, rhoi hyder iddynt a chynnig cymorth ar adegau da a drwg – nid gwaith hawdd ond gyda'i hymroddiad, ei ffydd Gristnogol a'i hynawsedd, nid yw y gwaith pwysig hwn yn ofer. Dymunwn yn dda iawn iddi hi a Lowri Mitton sydd newydd ddechrau ar yr un swydd yn ardal y Fflint.



*Yn y llun Eleri Edwards, Mair, Wendy Swan a'r llew*

## RHEDWYR DROS ACHOS DA




***Tomos a Joshua Rees, meibion Hefin a Bethan Rees, yn cael eiliad cyn ras marathon tref Harpenden. Bu'r ddau yn gyflym a chyraedd pen y daith – heb drafferth.***

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol ffoniwch 0151 722 1514 am gyfarwyddid

National Association of Funeral Directors® Est 1905